**Disgrifiad o'r Rôl**

**Gweithiwr Prosiect - Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, Sir Benfro**

Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn ddull arloesol o weithredu tuag at gynorthwyo teuluoedd ar ffiniau gofal, sy'n dangos gostyngiad yn niferoedd y plant a ddaw i ofal, a gwell deilliannau i blant a theuluoedd.  Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn gweithredu mewn partneriaeth â gwasanaethau awdurdodau lleol.  Mae gofalwyr maeth profiadol ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn darparu gofal cymorth ataliol â therfyn amser arno i deuluoedd, gyda chefnogaeth gan Y Rhwydwaith Maethu.

Gweithiwr Prosiect Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl fydd y prif berson cyswllt ar gyfer gweithredu a chyflenwi'r rhaglen yn Sir Benfro.  Bydd hyn yn golygu meithrin perthnasoedd gweithio effeithiol gyda thîm yr awdurdod lleol, a, mewn partneriaeth â'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, datblygu perthynas â sefydliadau allweddol eraill i gyflenwi cymorth i deuluoedd.

**Cyfrifoldebau ac atebolrwydd:**

- Magu perthnasoedd a gweithio'n uniongyrchol gyda'r timau maethu a diogelu yng Nghyngor Sir Benfro;
- Gweithio gyda Gweithiwr Cymdeithasol Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl i hyrwyddo'r rhaglen ac i hyfforddi gofalwyr maeth arbenigol;
- Sefydlu a magu perthnasoedd â theuluoedd i ganfod anghenion ac i gynllunio a chyflenwi rhaglenni i ddiwallu'r rhain, yn cynnwys rhaglenni hyfforddi ar gyfer rhieni a grwpiau meithrin ar gyfer plant;
- Gweithredu fframweithiau gwerthuso i fonitro, adolygu a gwerthuso cynnydd;
- Datblygu deunyddiau adnoddau a gwybodaeth am y model Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl i hwyluso hyrwyddo ac i hysbysu rhanddeiliaid allweddol;
- Darparu gweithgareddau a gwybodaeth i gynorthwyo teuluoedd i allu manteisio ar raglenni cymorth ac ymgysylltu â chymorth yn y gymuned leol;
- Cydgysylltu a chymryd rhan mewn sesiynau dysgu adfyfyriol a llywio cyfarfodydd grwpiau.

**Manyleb y Person**

**Ein Gwerthoedd**
Fel sefydliad, credwn ein bod yn gwneud gwahaniaeth i ofal maeth, a mynegir ein gwerthoedd o ran pobl yn y gwaith a wnawn:

YMDDIRIEDIR ynom
Rydym GYDA'N GILYDD
Rydym yn HANFODOL

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Hanfodol**

- Gwybodaeth a phrofiad sylweddol o ymgysylltu â rhieni a gweithio gyda theuluoedd sy'n agored i niwed mewn cyd-destun cymunedol i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau.
- Gwybodaeth a phrofiad o ddatblygu, darparu, a chyflenwi hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth achrededig i unigolion a/neu grwpiau sy'n agored i niwed mewn modd sensitif ac empathig.
- Gwybodaeth am fodelau arferion ataliol a sut i'w gweithredu fel rhan o'r rhaglen gyflawni.
- Profiad o reoli prosiect, yn cynnwys casglu a dadansoddi data prosiect a gwerthuso data.
- Profiad o gyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Profiad o drin a thrafod diogelu a gwybodaeth gyfrinachol mewn ffordd broffesiynol.
- Wedi'ch hunan-gymell gyda'r gallu i flaenoriaethu, i gynllunio, ac i ymgymryd â gwaith mewn modd effeithiol, gydag ond yr oruchwyliaeth leiaf.
- Gallu profedig i weithio'n effeithiol o fewn tîm o gydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol drwy amlygu gall i gydweithredu a hyblygrwydd.
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth ardderchog, yn cynnwys Microsoft Office, Sharepoint, Teams, PowerPoint.

- Bod yn barod i weithio oriau hyblyg a theithio'n fynych ledled Sir Benfro, ac ar adegau drwy Gymru.  Trwydded yrru lawn a modd o gael at eich cerbyd eich hun.

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Manteisiol**

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig fel ei gilydd.

- Cymhwyster mewn rheoli neu brofiad cyfwerth.

- Dealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â gofal maeth a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol hyd at lefel Gradd neu gyfwerth, mewn maes megis gwaith cymdeithasol, addysg, datblygu cymunedol, gwaith ieuenctid, seicoleg, cymdeithaseg neu bwnc cyffelyb.

**Agweddau**

- Angerdd ac ymrwymiad i ddylanwadu ar newid cadarnhaol i blant, pobl ifanc, a theuluoedd.

- Creadigol ac yn gallu meithrin, gyda dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion tuag at ddatrys problemau.

- Ymrwymiad i weithio o fewn polisïau ac arferion cyfle cyfartal ac amrywiaeth Y Rhwydwaith Maethu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
**Tâl ac Amodau Gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Band** | Band 4 |
| **Cyflog** | £28,000 - £32,000 |
| **Gwyliau Blynyddol** | 25 diwrnod ynghyd â 5 diwrnod Y Rhwydwaith Maethu a Gwyliau'r Banc y flwyddyn |
| **Cyfnod Prawf** | 6 mis calendr. |
| **Oriau gwaith** | 36<br>Croesawir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan amser, fel rhan o rannu swydd. |
| **Lleoliad** | Mae'r rôl hon yn golygu gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd a gofalwyr maeth yn Sir Benfro. Bydd hi'n ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n ddyddiol yn ardal yr awdurdod lleol oherwydd natur wyneb yn wyneb y rhaglen. |
| **DBS** | Mae gwiriad manylach gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol ar gyfer y rôl hon |
| **Pensiwn** | Dewisol. Mae'r opsiwn o gynllun pryniant arian ac aberthu cyflog ar gael gydag AEGON:<br>Cyfraniad y gweithiwr yw 3% o gyflog blynyddol gros.<br>Cyfraniad y cyflogwr yw 5% o gyflog gros. |
| **Benthyciad Tocyn Tymor** | Mae benthyciad tocyn tymor di-log ar gael i'r holl staff yn syth. |
| **Undeb Llafur** | Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cydnabod yr undeb llafur Unite, a gall aelodau staff ymuno os dymunant. |